Presennol: *J H Owens (Cad), R F Owen, M T Smithurst, C Davies, A Hughes, W Hughes, E Evans, S Austin, A Jones, K Woods, Cyng Peter Rogers, Cyng Bryan Owen*

Ymddiheuriadau: *C G Topps, R B Owen,*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18/07/2018 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r Agenda. CD yn cynnig, eilwyd gan MTS.

2. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18/07/2018

2.1 Gwefan - O ystyried y problemau sy'n parhau gyda'r wefan awgrymwyd y dylai'r Cyngor Cymuned wneud ymholiadau gyda chynllunydd gwefan proffesiynol. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan KW y dylai'r Clerc wneud ymholiadau.

2.2 Croesffordd Dothan– arwyddbost newydd– Clerc yn adrodd y bydd Canolfan Byron yn dechrau ar y gwaith yn yn ystod yr wythnos nesaf. Cyng B Owen i roi gwybod i'r Adran Briffydd ac i wneud ymholiadau ynglyn â chyfraniad gan y Cyngor Sir yn unol â chost arwydd modern. Mae'r Adran Briffydd wedi cynnig gosod arwydd modern yn y gorffennol a chwrdd â'r gost eu hunain.

2.3 Cae chwarae – Adroddwyd fod y ffens wedi ei chwblhau. Anfoneb wedi ei hawdurdodi i'w thalu. WH i ofyn i Mr H R Hughes remove the damaged equipment.

2.4. Railway Sleepers at access to beach. Clerc yn ceisio trefnu cyfarfod gyda Mr Tim Dodd, Ystad Bodorgan i drafod.

2.5 Llwybr drwy'r rhandiroedd – Clerc yn adrodd fod 100 tunnell o "plainings" wedi eu prynu ar gyfer trin y llwybr ar gost o £1,000. Y swm wedi ei hawlio yn ôl gan Gyngor Sir Ynys Môn o dan y cynllun cynnal llwybrau cyhoeddus. I'w drafod yn ystod y cyfarfod gyda Mr Tim Dodd.

2.6 Retaining Wall at Glan y Mor – Y Cyngor Sir wedi gwbeud gwaith i adfer y wal.

2.7 Llecyn parcio yn Nhan Refail – Dim gwybodaeth bellach. Clerc i wneud ymholiadau.

2.8 Pryderon Tai – Clerc yn adrodd nad oedd Mr Ned Michael a Mrs Alwena Pawson (Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn) wedi mynychu'r cyfarfod oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld.

2.9 Ymddygiad gwrth-gymdeithasol ym Min y Mor – CD reported that the garden area had been vandalised. PCSO attended and spoke to children and parents. CD o'r farn fod yr heddlu wedi delio â'r sefyllfa mewn modd effeithiol iawn. Ymddengys fod y broblem wedi ei datrys.

2.10 Baw Cwn – Adroddwyd fod y broblem wedi symud i leoliad arall yn y pentref. MTS i ymchwilio.

2.11 Cynllun parcio Ystad Bodorgan– KW yn adrodd fod 74 tocyn wedi eu gwerth am £10.00 yr un i'w rannu rhwng Cyngorau Cymuned Aberffraw a Llanfaelog. Costau argraffu yn £90.00 yr un i'r Cyngorau Cymuned yn gadael swm o £280.00 i'w fancio gan Gyngor Cymuned Aberffraw. Clerc yn cadarnhau derbyn £280.00 gan KW.

2.12 Chwyn o amgylch y pentref – Pryderon wedi eu mynegi ynglyn â goblygiadau gofyn i wirfoddolwyr ddefnyddio chwynladdwr. Cyng P Rogers yn adrodd fod y broblem yn amlwg ledled yr awdurdod. AJ yn adrodd fod reported fod cwmni chwynladdwr yn yr ardal ar hyn o br yd ac am wneud ymholiadau os yw Aberffraw ar y rhestr o ardaloedd sydd am dderbyn sylw.

3. Ceisiadau Cynllunio

Cais 10EL1531B/E – Cais ar gyfer ail-godi gwifrau trydan 11kV ar dir rhwng Bryn Du, Malltraeth ac Aberffraw. Dim sylwadau.

4. Archwiliad Allanol

Archwiliad allanol ar gyfer y flwyddyn 2017-18 wedi ei gwblhau gyda'r adroddiad canlynol:

“Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Ffurflen Flynyddol yn unol â gweithdrefniadau cywir ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n codi pryder nad yw'r rheoliadau a'r anghenion cyfreithiol wedi eu cwrdd.”

Mae'r Adroddiad Materion a Godwyd yn nodi'r canlynol:

1. Cronfeydd wrth gefn

Mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r praesept y gofynwyd amdano a dydyn nhw ddim wedi cael eu clustnodi ar gyfer unrhyw gronfeydd penodol.

Nid oes gan y cyngor y grym i gadw cronfeydd gormodol wrth gefn oni bai eu bod yn cynilo i brynu rhywbeth

Cadeirydd..... Clerc.....

penodol ac os felly yna dylai'r cronfeydd gael eu clustnodi at y pwrpas hwnnw.

Camau i'w cymryd

Cronfeydd wrth gefn i'w clustnodi yng nghyfarfod trafod y gyllideb ym mis Ionawr.

2. Pwerau gwariant – Adran 137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir

Camau i'w cymryd

Rhoddion i'w hawdurdodi fel a ganlyn

- Clwb pel droed - A19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 y pwr i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn a thu hwnt i'r ardal.
- Gwyl Rhosneigr - A145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 darparu adloniant a chefnogi'r celfyddydau yn cynnwys gwyliau a dathliadau
- Sioe Aberffraw – A144 Deddf Llywodraeth Leol 1972, grym i ddarparu ac annog ymwelwyr i ymweld â'r DU

Camau i'w cymryd

Clerc i adolygu'r rhestr o rymoedd statudol sydd ar gael i'r cyngor er mwyn sefydlu a oes grym yn bodoli cyn dibynnu ar Adran 137 i awdurdodi taliad. Cofnodi'r grym statudol perthnasol yn y cofnodion lle nodi'r y rhodd. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol a'r Adroddiad Materion yn Codi i'r cyngor. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan KW fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo ac yn derbyn y Ffurflen Flynyddol.

5 Gohebiaeth

5.1. Un Llais Cymru– gwybodaeth ynglyn â Hyfforddiant Ariannol Llywodraeth Leol i'w gynnal ar 25ain o Fedi 2018. Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer mynychu.

5.2. Ceri Woodcock – Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn – Gwahodd aelod ychwanegol i gynrychioli Cyngor Cymuned Aberffraw ar Bwyllgor Cyswllt Trac Môn a'r Gymuned. CD a SA i gynrychioli'r Cyngor Cymuned.

5.3. Nia Binyon – Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn– Cais fod y Cyngor Cymuned yn torri'r gordyfiant rhwng y wal a'r ffens sy'n ffurfio ffin rhwng Maes Llewelyn a'r cae chwarae. Y mater i'w drafod gyda'r cynrychiolwyr o'r Adran Dai yn ystod y cyfarfod nesaf.

5.4 Mon Grass Cutting Services – Anfonebau – wedi eu hawdurdodi i'w talu.

5.5 Liam Jones – Anfonebau am dorri glaswellt y cae chwarae– wedi eu hawdurdodi i'w talu

6 Unrhyw fater arall

6.1. Wal ym Min y Mor– Adroddiadau fod y wal wedi cracio. Cyng B Owen yn adrodd fod y wal i gael ei dymchwel a'i hail-godi. Bydd y Cyngor Sir yn talu am y gwaith.

6.2. Hysbysfwrdd – Clerc yn adrodd ei bod wedi gwneud ymholiadau gyda Mr Ian Lloyd (saer coed) fodd bynnag JHO wedi canfod cyflenwr arall.

6.3 Sul y Cofio – CD yn adrodd fod Mr Mike Wilson wedi gwneud ymholiadau ynglyn a'r pabi mawr a arddangoswyd o amgylch y pentref yn y gorffennol. JHO yn adrodd mai gwirffoddolwyr oedd yn gwnud y gwaith hwn ac nid y Cyngor Cymuned. JHO hefyd yn adrodd fod y blodau wedi eu difrodi gan y dywydd. CD i ofyn am rai Newydd a gofyn i'r Clwb Pel droed am gymorth i'w harddangos.

6.4 Llifogydd ar y lon sy'n arwain tuag at Llyn Coron – EE yn mynegi pryderon ynglyn â lefel yr afon mewn perthynas â lefel y lon. Clerc i gysylltu â'r Adran Briffyrdd.

7 Cyllid

Taliadau:

31/08/2018	JD Roberts	Archwiliad Mewnol (Cywiro taliad)	£ 6.00
31/08/2018	MCGS	Torri glaswellt	£ 260.00

Derbyniadau:

31/08/2018	CSYM	Priseb	£2500.00
------------	------	--------	----------

8 <u>Lotri – L08</u>	26	Audrey Jones	£25.00
	84	Anne Pollitt	£10.00

9 <u>Lotri – L09</u>	64	Barry Owen	£25.00
	115	Hilda Thomas	£10.00

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd
Yn Neuadd Glannau Ffraw am, am 7 yh ar nos Fercher y 17^{fed} Hydref 2018

Presennol: *J H Owens (Cad), R F Owen, M T Smithurst, C Davies, E Evans, S Austin, A Jones, Cyng Bryan Owen, Cllr Peter Rogers, Mr Ned Michael, Cheryl Apton Owen (Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn)*

Ymddiheuriadau: *C G Topps, R B Owen, A Hughes, W Hughes, K Woods,*

1. Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Ned Michael, Pennaeth Tai a Cheryl Apton Owen, Swyddog Tai, i'r cyfarfod. Eglurodd Mr Michael bolisi gosod y Cyngor fel a ganlyn:

Gosodir y tai ar sail 4 band o angen.

- Argyfwng – sefyllfaeodd difrifol megis digartref. Dim cyswllt lleol â'r gymuned ond rhaid cael cysylltiad o leiaf 5 mlynedd Ynys Môn.
- Band 1 – pobl o dan fygythiad o fod yn ddi-gartref, yn byw mewn amodau gwael neu gydag anghenion meddygol penodol. Rhaid bod â chysylltiad o 5 mlynedd gydag Ynys Môn.
- Band 2 – dylent fod yn y band argyfwng ond heb 5 mlynedd o gysylltiad â'r ynys.
- Band 3 – dylent fod ym mand 1 ond heb 5 mlynedd o gysylltiad â'r ynys.

Pan gyflwynir y ceisiadau, maent yn cael eu hasesu a'u rhoi ar y rhesr aros yn y band perthnasol.

CD yn mynegi pryderon ynglyn â'r polisi gosod mewn perthynas â Min y Môr a'r diffyg cydymdeimlad at bobl sy'n cyrraedd yr oedran ble maent yn gorfod ystyried symud i gartrefi lloches. Cheryl Owen yn egluro fod rhaid i unigolion ers 2016 fod dros 60 oed neu wedi eu cofstru'n anabl i fod yn gymwys i'w hystyried ar gyfer cartrefi lloches..

Cafwyd trafodaeth eang ynglyn ag amryw o broblemau mewn perthynas a thai cymdeithasol yn y pentref. Pryderon wedi eu mynegi ynglyn ag eiddo bler a'u heffaith ar eiddo cyfagos. Swyddog Tai i ymchwilio i achosion penodol. Mr Michael yn datgan nad oedd rhestr aros hir ar gafer cartrefi cymdeithasol yn Aberffraw ac yn egluro fod rhaid i ymgeiswyr fod ar y rhesr cyn y daw'r eiddo yn wag.

Diolchodd y cadeirydd i Mr Michael a Ms Owen am fynychu'r cyfarfod.

2. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19/09/2018 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. AJ yn cynnig, MTS yn eilio.

3. Materion yn codi o gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19/09/2018

2.1. Gwefan – Clerk yn adrodd ei bod wedi cysylltu â D13 Creative. Pryderon ynglyn â'r enw aberffraw.cymru.

Deallir ei fod yn parhau dan berchnogaeth Mr Richard Stallwood. JHO i drafod trosglwyddo perchnogaeth gyda Mr Stallwood.

2.2 Croesffordd Dothan – arwyddbost newydd– Cyng B Owen yn adrodd ei fod wedi gwneud trefniadau i swyddog o'r Adran Briffyrdd ymweld â'r safle.

2.3 Cae Chwarae –WH ddim yn bresennol i adrodd yn ôl mewn perthynas â'r cais i Mr H R Hughes gael gwared â'r offer sydd wedi torri. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

2.4. "Sleepers" Rheilffordd ger y fynedfa i'r traeth. Cyfarfod wedi ei drefnu gyda Mr Tim Dodd, Ystad Bodorgan. Clerc a JHO i fynychu.

2.5 Llwybr cyhoeddus drwy'r rhandiroedd– Posibilrwydd o gyfraniad gan Ystad Bodorgan i'w drafod yn ystod y cyfarfod gyda Mr Tim Dodd.

2.6 Ardaloedd parcio ger Tan Refail – Dim gwybodaeth bellach. Clerc i wneud ymholiadau.

2.7 Chwyn o amgylch y pentref – AJ yn adrodd fod y broses o chwistrellu wedi ei ddal yn ôl o ganlyniad i'r tywydd. Disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau mewn oddeutu tair wythnos.

2.8 Hysbysfwrdd – I'w drafod eto.

2.9. Llifogydd ar y ffordd yn arwain i gyfeiriad Llyn Coron – Clerc wedi ei hysbysu gan yr Adran Briffyrdd fod y broblem o ganlyniad i lefel yr afon a'i fod yn fater i GNC yn hytrach na'r Cyngor Sir.

2.10 Gor dyfiant ar y ffin rhwng y llwybr troed ym Maes Llywelyn a'r cae chwarae. Cais gan y Cyngor Sir fod y Cyngor Cymuned yn trefnu i gael torri'r gor-dyfiant. Perchnogaeth y darn tir yn aneglur. Mr Ned Michael, Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn am ymchwilio.

3 Ceisiadau Cynllunio

Dim

4 Gohebiaeth

5.1. Christine Hallsworth – cais am rodd o £270.00 i dalu am logi castell neidio a “bucking bronco” ar gyfer Ffair Nadolig Aberffraw. Cynigwyd gan AJ ac eilwyd gan MTS y dylid cyfrannu'r swm. Y gwariant i'w glustnodi dan Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol (y pwer i ddarparu cyfleusterau hamdden).

5.2. Cyngor Sir Ynys Môn – Gwaharddiad Traffig Dros dro ar Groesffordd Rheilffordd Gorsaf Ty Croes rhwng 10:00 yh ar 3^{ydd} Tachwedd 2018 a 09:30 yb ar 4^{ydd} Tachwedd 2018.

5.3. Panel Taliadau Annibynnol Cymru– adroddiad blynyddol drafft. Ebst wedi ei hafnion ymlaen i'r aelodau. Sylwadau i'w genud erbyn 27^{ain} o Dachwedd 2018.

5.4 Mon Grass Cutting Services – Anfonebau– wedi eu hawdurdodi i'w talu.

5.5 Liam Jones – Anfonebau mewn perthynas â thorri glswellt y cae chwarae– wedi eu hawdurdodi i'w talu.

Adroddodd y Clerc ei bod yn eglur y byddai angen torri'r cae chwarae yn amlach nag a rhagwelwyd. Cynigwyd gan A Jones y dylid trosglwyddo £600.00 o'r Arian wrth Gefn i gyllideb y cae chwarae. Cytunodd bawb.

5 Unrhyw fater arall

5.1 Llwybr wedi gor-dyfu- Adroddwyd fod y llwybr rhwng 1 a 6 Tan Refail o'r ffordd tuag at Diwydfa wedi godyfu gan ddrain. Clerc i gysylltu â'r Adran Dai.

5.2 Seddi ger Min y Mor - CD yn adrodd fod dwy fainc ger Neuadd Gymunedol Min y Môr wedi dirywio nes eu bod bellach yn beryglus. Clerc i gysylltu â'r Adran Dai.

5.3 Gwrychyn y Fynwent– Adroddwyd fod y gwrychyn gyferbyn â'r fynedfa yn y fynwent newydd angen ei dorri. JHO i wneud ymholiadau gyda Oliver Fowle.

5.4 Cae chwarae– Gwastraff concriid ar y safle. JHO i ofyn i Mr H R Hughes gael gwared â'r concriid pan yn tynnu'r offer sydd wedi torri.

6 Cyllid**Taliadau:**

19/09/2018	Iwan Roberts	Ffens cae chwarae	£1832.40
19/09/2018	MCGS	Torri glaswellt	£ 840.00
30/09/2018	M Evans	Cyflog Gorffennaf– Medi	£ 692.20

Derbyniadau:

01/10/2018	O Hughes	Rhent	£ 233.00
01/10/2018	R & CP Hughes	Y fynwent	£ 75.00
01/10/2018	M Rowlands	Y fynwent	£ 75.00

7 Lotri – L10

23	Mrs Mona Owens	£25.00
90	Mrs P Hallybone	£10.00

JHO yn adrodd for y 2il wobwr a dynnwyd y mis dwethaf wedi gadael y lotri. Rhif newydd wedi dynnu. 2il wobwr wedi ei ennill gan rif 61 Mr Gethin Owen.

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn
Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh, nos Fercher 21^{ain} o Dachwedd2018

Presennol: *K Woods (Cad), R F Owen, M T Smithurst, C Davies, E Evans, S Austin, W Hughes, A Jones, Cyng Bryan Owen, Cyng Peter Rogers*

Ymddiheuriadau: *J H Owens, C G Topps, R B Owen, A Hughes,*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17/10/2018 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. MTS yn cynnig, eilwyd gan CD.

2. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17/10/2018

2.1 Gwefan– dim gwybodaeth bellch ynglyn â throsglwyddo perchnogaeth enw'r wefan gan Mr R Stallwood. JHO ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

2.2 Croesffordd Dothan– arwyddbost– K W i ymweld â Chanolfan Byron i wneud ymholiadau.

2.3 Cae chwarae –Dyfnbris o £140.00 wedi ei dderbyn gan Mr H R Hughes i dynnu'r offer sydd wedi ei ddifrodi a thacluso'r ddaear ar ei ôl. Cynnigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ y dylid gofyn i Mr Hughes gwblhau'r gwaith. WH i roi gwybod i Mr Hughes.

2.4. "Sleepers" rheilffordd ger y fynediad i'r traeth. Mr Tim Dodd, Ystad Bodorgan, yn ymwybodol o'r broblem ac yn bwriadu ymweld â'r safle.

2.5 Llwybr Cyhoeddus drwy'r Rhandiroedd – Mr Tim Dodd, Ystad Bodorgan, i ymweld â'r safle ac ystyried opsiynau mewn perthynas â chyfraniad yr ystad tuag at y gwaith.

2.6 Llecynau parcio ger Tan Refail – Clerc yn adrodd na fyddai'r Adran Briffyrdd yn caniatáu tynnu'r ochrau glaswellt gan eu bod yn agos i'r gyffordd a byddai'n creu perygl i dderfnyddwyr y ffordd.

2.7 Gordyfiant ar y ffin rhwng y llwybr troed ym Maes Llywelyn a'r cae chwarae. Clerc yn adrodd ei bod wedi derbyn cadarnhad gan Mr Ned Michael mai'r Cyngor Cymuned sydd yn berchen ar y tir. Pryderon wedi ei mynegi ynglyn â'r gwastraff adeiladu a adawyd ar y safle pan gwblhawyd y gwaith adnewyddu ar fflatiau Maes Llewelyn. KW i ymchwilio ac i wneud ymholiadau gyda Mr Liam Jones mewn perthynas â dyfnbris ar gyfer torri'r gordyfiant.

2.8 Gor-dyfiant ar lwybr troed– Rhwng 1 a 6 Tan Refail o'r ffordd yn arwain tuag at Diwydfa – Dim ymateb gan Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn.

2.9 Meinciau ym Min y Mor – y mater wedi ei ddwyn isylw'r Adran Dai.

3 Ceisiadau cynllunio

Trac Môn – Ymgynghoriad cyn cyflwyno'r cais mewn perthynas â'r canlynol:

- Newidiadau i ffurf y trac
- Ehangu'r llain bresennol
- Dymchwel adeiladau dros dro
- Codi siop/ysgol rasio /adeilad swyddfa /pympiâu tanwydd/bwyty/swyddfa DM/ adeilad timau rasio beiciau modur ac adeilad pryd ar glud
- Addasiadau ac enghangu'r modurdai presennol a'r twr rheoli
- Newid defnydd o swyddfa i westy
- Gwaith newid tirwedd
- Newid defnydd o dir pori
- Codi swyddfeydd trac, Canolfan feddygol a chlawdd ynglyd â mynedfa a maes parcio.

Clerc i wneud y sylwadau canlynol:

- Mynegi siom ynglyn â'r diffyg cyfloeodd gwaith i drigolion lleol mewn perthynas â'r fenter er gwaethaf addewidion a waned pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol.
- Awgrymiad y dylid fod y cais ynghlwm ag Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Dylai'r trac wneud cyfraniad sylweddol i'r gymuned leol i adlewyrchu effaith negyddol y swm a thraffig ychwanegol.
- Arwyddion a.y.y.b i fod yn ddwy-ieithog.

Cadeirydd..... Clerc.....

4 Gohebiaeth

4.1 Cyngor Sir Ynys Môn Adran Briffyrdd – Cadarnhad o waharddiadau parcio i'w cyflwyno o amgylch y pentref.

4.2 Ystad Bodorgan – Rhybudd adolygiad rhent – Pryderon wedi eu mynegi ynglyn â'r ffaith nad oedd y rhybudd wedi ei gyflwyno mewn da bryd i alluogi'r Cyngor Cymuned gyflwyno rhybudd i'r denantiaid y rhandiroedd.

4.3 Cyngor Sir Ynys Môn Adran Briffyrdd – Rhybudd cau'r ffordd yn Lon Caban, Bodorgan o'r 10fed o Ragfyr 2018 am gyfnod o 1 mis ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn 14eg o Ragfyr 2018.

4.4 Cynigion Grid Cenedlaeth i osod llinell ychwenagol o beilonnau trydan ar draws yr ynys – Clerc i gyflwyno gwrthwynebiad ar ran y Cyngor Cymuned.

4.5 Mon Grass Cutting Services – Anfonebau – wedi eu hawdurdodi i'w talu.

4.6 Liam Jones – Anfonebau am dorri glaswellt y cae chwarae – wedi eu hawdurdodi i'w talu.

4.7 Cyngor Sir Ynys Môn – Pencampwr yr Iaith Gymraeg– Cais fod y Cyngor Cymuned yn enwebu pencampwr yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. Elwyn Evans wedi ei enwebu.

5 Unrhyw Fater Arall

5.1 Baw cwn yn y fynwent– cwyn gan aelod o'r cyhoedd. Cafwyd cadarnhad mae dyma'r gwyn cyntaf o'r fath a dderbyniwyd. Ymddengys mai'r unig fynedfa bosib yw'r giat dros y ffordd i Faes Llewelyn. Cytunwyd y dylid cadw golwg ar y sefyllfa.

5.2. Twrch daear ar y cae chwarae – Clerc yn adrodd fod Mr G Hughes wedi delio â'r broblem am gost o £10.00

5.3 Aberffraw mewn blodau – cais i'w wneud am gyfraniad ariannol tuag at 10 cafn blodau a chompost. CD y ymchilio i gostau'r cafnau a chostau eu cynnal a chadw. Cais i'w wneud fod staff y trac yn torri'r glaswellt ar y ddwy ochr i groeslon Ty Croes.

5.4 Polisi gosod tai Cyngor Sir Ynys Môn– Cyng B Owen yn egluro fod y polisi gosod wedi ei lunio gan swyddogion y cyngor cyn cael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn.

6 Cyllid**Taliadau:**

20/10/2018	C Hallsworth	Digwyddiad cymunedol	£ 270.00
20/10/2018	G Hughes	Dal twrch daear	£ 10.00
12/11/2018	Ystad Bodorgan	Rhent	£ 3844.00
12/11/2018	J H Owens	Torch Sul y Cofio	£ 27.00
12/11/2018	L Jones	Torri glaswellt	£ 400.00

Derbyniadau:

24/10/2018	Amrywiol	Rhent	£ 207.50
26/10/2018	K Woods	Incwm cynllun parcio	£ 280.00
06/11/2018	Amrywiol	Rhent	£ 207.50

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw
am 7 y.h. nos Fercher 24ain o Ionawr 2018

Present: *J H Owens (Cad), W Hughes, M T Smithurst, R B Owen, C Davies, K Woods, S Austin,
Cyng Bryan Owen,*

Ymddiheuriadau: *E Evans, A Jones, A Hughes, R F Owen, Cllr Peter Rogers, Menna Evans (Clerc)*

1. Aelod newydd

Estynwyd groeso cynnes i Mr Stuart Austin i'w gyfarfod cyntaf. O ganlyniad i absenoldeb y Clerc bwriedir darparu ffurflen datganiad erbyn y cyfarfod nesaf.

2. Cofnodion

2.1) Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15/11/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. WH yn cynnig, eilwyd gan KW.

2.2) Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 06/12/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. KW yn cynnig, eilwyd gan MTS.

3. Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15/11/2017

3.1 Gwefan - Clerc yn adrodd ei bod wedi siarad gyda Mr Stallwood ynglyn â newid perchnogaeth y safle we i'r Cyngor Cymuned. Dim cyswllt pellach gan Mr Stallwood.

3.3. Y fynwent – Prynu'r tir – Clerc yn adrodd fod y mater mewn llaw. Dim gwybodaeth bellach

3.4. Croesffordd Dothan – arwyddbost - KW i wneud ymholiadau.

3.7. Parcio – Cyffordd Stryd yr Eglwys– Cyng B Owen i geisio sicrhau fod yr argymhellion ar gyfer llinellau melyn ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.

3.8. Cae chwarae – Pryderon ynglyn â'r ffaith nad oes ffens ar y ffin rhwng y cae chwarae a'r ffordd gyferbyn â'r fynwent. Pryderon nad oes dim i atal plant rhag rhedeg i'r ffordd. Deallir fod pyst yn eu lle yn barod. KW i ymchwilio.

8.2 Gwrychyn y fynwent – WH wedi codi'r mater mewn perthynas â chael gwared o'r gwastraff ar ol torri. Cadarnhawyd y bydd y gwastraff yn cael ei chwythu o dan wrych sedd gryn bellter o wrychyn y fynwent.

4. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06/12/2017

JHO yn adrodd fod Mrs P Oliver wedi gwneud ymholiadau ynglyn â'r cytundeb gosod. JHO wedi dangos copi o gytundeb saesneg iddi.

5. Ceisiadau cynllunio

Cais Rhif: 10C95D – Cais llawn ar gyfer addasiadau ac estyniadau i Maerdy, Stryd Llewelyn, Aberffraw. Dim sylwadau.

6. Cyllideb 2018-19 a'r Priseb

Cyllideb wedi ei baratoi gan y Clerc ar sail y priseb presennol o £7,000. Mae'r gyllideb yn dangos balans agoriadol o £11,800.00, incwm disgwylidig o £16,800.00 a gwariant disgwylidig o £19,200.00 sy'n rhoi balans terfynol disgwylidig o £9,400.00. Mae'r ffigyrau Projections include an additional cost of £900.00 for cutting the grass at the playing field in view of the fact that the County Council will not be carrying out the work from April 2018. The Internal Auditor had recommended the maintenance of a current balance of £10,000.00 in view of the Community Council's responsibility for the Community Cemetery. O ystyried yr uchod, cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan KW y dylid codi'r priseb i £7,500.00. Cynigwyd gan KW ac eilwyd gan MTS fod y Cyngor Cymuned yn derbyn y gyllideb am y flwyddyn. Pawb yn gytun.

7. Cytundebau gosod y Rhandiroedd

I'w paratoi erbyn y cyfarfod nesaf.

8. Gohebiaeth

8.1 Mr William Stockwell – Warden AONB – cymorth arianol tuag at fagiau baw cwn a daliwr. Cytunwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn y cynnig. CD yn hysbysu'r cyfarfod fod bagiau ar gael yn Stermat am gost o £1 am 100 o fagiau.

8.2 Clwb Pel droed Aberffraw– Cais am arian– Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu £200.00. Cynigwyd gan KW, eilwyd gan RBO.

8.3 MGCS – Dyfnbris ar gyfer torri glaswellt 2018

Y fynwent -£160 y toriad

Gwrychyn y fynwent- £65 y mis

Llwybrau cyhoeddus- £100 y mis

Cytunwyd gan bawb a oedd yn bresennol y dylid derbyn y dyfnbris.

8.4 MGCS - Amcanbris ar gyfer torri glaswellt y cae chwarae

£90 y toriad

Cytunwyd gan bawb y dylid derbyn yr amcanbris hwn.

8.5 Horizon – Wylfa Newydd consultation – contents noted.

In view of the offer for assistance with matters ecological the Council thought this would be an opportune time to request assistance for the purchase of 14 raised planters, compost and plants to improve the appearance of the village.

8.6 Mr J D Roberts - Archwiliwr – Anfoneb ar gyfer Archwiliad mewnol 2016-17 am £75.00 ynghyd â llythyr yn hysbysu'r Cyngor o'i ymddeoliad. Anfoneb wedi ei hawdurdodi i'w thalu. Clerc i anfon llythyr o ddiolch at Mr Roberts yn diolch am ei gymorth a'i gyngor gwerthfawr dros ei flynyddoedd o wasanaeth.

9. Unrhyw fater arall

9.1. Neuadd Glannau Ffraw– Sylwadau ynglyn a'r gwelliant yn edrychiad yr ystafell gyfarfod a'r gegin. Pwyllgor y neuadd i'w llongyfarch.

10. Cyllid

<u>Taliadau:</u>	18/10/2017	Gwyl Rhosneigr	Rhodd	£200.00
	26/10/2017	MGCT	Torri glaswellt	£720.00
	06/12/2017	C G Topps	Torch	£ 26.00

Derbyniadau:

11. <u>Lotri – L01</u>	Rhif 16	Mrs E Hughes, Bragdy	£25.00
	Rhif 133	Mrs M Hughes, 7 Bro Branwen	£10.00